

## Y CYNGOR

### Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 13.00 ar 26 TACHWEDD 2020, trwy Zoom.

Yn bresennol: Dr Emyr Roberts, Cadeirydd y Cyngor (yn y Gadair, o gofnod 13); y Gwir Anrhydeddus Elfyn Llwyd, Dirprwy Gadeirydd y Cyngor (yn y Gadair, ar gyfer cofnod 12); Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor (heblaw am gofnod 13); Yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyrwyr); Mr George Ashworth (o gofnod 22 ymlaen); Ms Samantha Blackie; Ms Kate Eden (o gofnod 24 ymlaen); Ms Meri Huws; Mr Morgan Lewis, Llywydd UMCA; Dr Louise Marshall; Mr Nathaniel Pidcock, Llywydd UMAber; Ms Rhuanedd Richards (tan gofnod 24.2); Ms Fiona Sharp; Mr Mark Tweed; Ms Kath Williams; Dr William Williams; Yr Athro Syr Robin Williams; a'r Athro Reyer Zwiggelaar.

Yn gweinyddu: Mr Stephen Forster, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol; Mr Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Brifysgol; Mr Steve Thomas, Pennaeth Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus.

Nid oedd ymddiheuriadau am absenoldeb wedi dod i law.

### 12. PENODI CADEIRYDD Y CYNGOR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU2021-033).

NODWYD

1. Byddai Dr Emyr Roberts yn dod i ben ei dymor tair blynedd gyntaf yn Gadeirydd y Cyngor ar 31 Rhagfyr 2020. Cyfarfu'r Pwyllgor Enwebiadau ar 22 Hydref 2020 i ystyried ailbenodi Dr Roberts am dymor pellach, gan gyfeirio'n ddyladwy at ganlyniad yr arfarniad blynyddol o Gadeirydd y Cyngor a wnaed gan Ddirprwy Gadeirydd y Cyngor.
2. Roedd y Pwyllgor Enwebiadau yn unfrydol yn argymhell ailbenodi Dr Roberts yn Gadeirydd y Cyngor am dymor pellach. Ar ei bod yn bosibl ailbenodi Dr Roberts am gyfnod pellach tan 3 Gorffennaf 2024, roedd ef wedi dweud ers hynny y byddai'n well ganddo ail gyfnod byrrach.

PENDERFYNWYD

3. Penodi Dr Emyr Roberts yn Gadeirydd y Cyngor am dymor pellach, terfynol am y cyfnod o 01 Ionawr 2021 tan 31 Rhagfyr 2023 (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

### 13. CYFNOD YR IS-GANGHELLOR YN Y SWYDD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gadeirydd y Cyngor (COU2021-034).

NODWYD

1. Roedd cyfnod penodiad yr Athro Elizabeth Treasure yn Is-Ganghellor yn dod i ben ym mis Ebrill 2022. Cafodd hyn ei ystyried gan Gadeirydd y Cyngor yn rhan o'i arfarniad blynyddol o'r Is-Ganghellor, ac fe gafodd argymhelliad i adnewyddu contract cyflogaeth yr Athro Treasure yn gynnar ei gyflwyno i'r Pwyllgor Enwebiadau ar 17 Tachwedd 2020.
2. Roedd y Pwyllgor Enwebiadau yn unfrydol yn argymhell y dylid estyn contract cyflogaeth yr Athro Treasure yn Is-Ganghellor. Byddai hyn yn rhoi sicrwydd i'r Is-Ganghellor, a'i rhoi mewn sefyllfa i gyflawni'r strategaethau a'r camau gweithredu yr oedd wedi eu sefydlu.
3. Byddai amryw ystyriaethau yn dylanwadu ar ddyddiad ymadael yr Is-Ganghellor yn y pen draw, gan gynnwys yr amser a gymerir i benodi ei holynydd a'r cyfnod rhybudd y byddai angen i'r ymgeisydd llwyddiannus ei roi. Byddai union amseriad hyn felly yn cael ei ystyried yn nes at yr amser.
4. Dywedodd Dr Emyr Roberts wrth yr aelodau mai ei fwriad oedd i'w olynydd yn y Gadair fod yn rhan o'r broses o benodi Is-Ganghellor nesaf y Brifysgol - proses a fyddai'n debygol o ddechrau yn ystod ail hanner 2023 - a byddai angen trefnu i benodi Cadeirydd newydd i'r Cyngor yn unol â hynny.

#### **PENDERFYNWYD**

5. Y dylai contract cyflogaeth yr Athro Elizabeth Treasure yn Is-Ganghellor, mewn egwyddor, gael ei estyn tan 30 Medi 2024, yn amodol ar barhad mewn perfformiad boddhaol; ac y dylai union amseriad ymadawiad yr Is-Ganghellor gael ei ystyried yn nes at yr amser (**GWEITHREDU**: Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol).

#### **14. MATERION A GODWYD GAN Y CADEIRYDD**

1. Cydymdeimlad

Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marw'r canlynol:

1. Yr Athro Peter Borsay, Athro Emeritws yn yr Adran Hanes a Hanes Cymru;
2. Yr Athro D Q Bowen, cyn-Gyfarwyddwr Athrofa Astudiaethau'r Ddaear;
3. Michael Lowe, cyn-Ddarlithydd Astudiaethau Gwybodaeth;
4. Dr Jan Morris, Cymrawd Anrhydeddus; a
5. Yr Athro Syr John Meurig Thomas, Cymrawd Anrhydeddus.

2. Sesiwn Wybodaeth

Cyn y cyfarfod ffurfiol cafodd sesiwn wybodaeth ei chynnal i aelodau'r Cyngor, dan arweiniad Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth. Byddai recordiad o'r sesiwn hon - a ganolbwyntiodd ar arolwg ymhlith myfyrwyr o effaith pandemig Covid-19 arnyn nhw - ar gael trwy safle SharePoint i'r aelodau nad oeddent yn gallu bod yno yn y bore (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).

3. Dull cynnal y Cyfarfod

Er mwyn cynnal cyfarfod effeithlon ar-lein, gofynnwyd i aelodau roi rhybudd ymlaen llaw pe byddent yn dymuno trafod eitem a nodwyd â seren ar yr agenda. Ni wnaed cais,

a byddai'r eitemau dan sylw felly yn cael eu cymeradwyo neu eu nodi yn unol â'r argymhelliad a nodwyd ar y flaenddalen.

**15. GWRTHDARO BUDDIANNAU**

NODWYD

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w trafod yn ystod gweddill y cyfarfod.

**16. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Medi 2020 (COU2021-036).

**PENDERFYNWYD**

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

**17. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Cyngor, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (COU2021-037).

NODWYD

1. Y diweddariadau a roddwyd yn y cofnodydd penderfyniadau.
2. Ar gais Cadeirydd y Cyngor roedd Ysgrifennydd y Brifysgol wedi gofyn am ddiweddariadau gan y rhai nad oeddent wedi adolygu system olrhain gweithrediadau pwyllgorau'r Brifysgol ers y cyfarfod diwethaf. Cafodd y diweddariadau eu crynhoi ar lafar, a byddent yn cael eu cofnodi'n ffurfiol ar y system i'w hadrodd i gyfarfod nesaf y Cyngor.

**18. PENDERFYNIAU A WNAED RHWNG CYFARFODYDD**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU2021-038).

NODWYD

1. Manylai'r adroddiad ar yr adegau ers cyfarfod diwethaf y Cyngor y cafodd materion eu cymeradwyo gan aelodau trwy ohebiaeth, neu gan y Cadeirydd ar ran y Cyngor.
2. Y materion a gymeradwywyd gan yr aelodau trwy ohebiaeth oedd:
  1. Costau cyfalaf diwygiedig i'r Ysgol Filfeddygaeth, yn dilyn proses gaffael a gwaith peirianeg gwerth dilynol.

2. Y penderfyniad ffurfiol diwygiedig angenrheidiol i gwblhau caffael benthycia ychwanegol o dan y Cynllun Amharu ar Fusnes Mawr gan Coronafeirws (CLBILS).

## 19. GOHEBIAETH

Doedd dim gohebiaeth i'w gofnodi.

## 20. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (COU2021-039).

NODWYD

1. Roedd pedair prif adran i'r adroddiad: adroddiad am uchafbwyntiau; adroddiad o'r Senedd; adroddiad cynllunio a denu myfyrwyr; ac adroddiad ynglŷn â chyfathrebiadau.
2. Yn dilyn diwrnod encil y Cyngor ar 22 Medi 2020, roedd yr Is-Ganghellor wedi gofyn i'r Senedd am eu barn ynglŷn â'r cynnydd a wnaed yng nghyswllt Cynllun Strategol 2018-2023 y sefydliad yn ystod prynhawn strategaeth y Senedd ar 30 Medi. Roedd yr Is-Ganghellor nawr yn gweithio i adnewyddu'r Cynllun Strategol ar ganol ei dymor a byddai'n cyflwyno unrhyw gynigion i gylch nesaf y cyfarfodydd (**GWEITHREDU**: Yr Is-Ganghellor).
3. Rhoddodd yr Is-Ganghellor wybodaeth gyfrinachol i'r aelodau am waith cwmpasu a oedd yn cael ei wneud a allai arwain at gydweithredu rhwng Canolfan Gelfyddydau'r Brifysgol â sefydliad cenedlaethol arall ar brosiect sylweddol. Rhoddir rhagor o wybodaeth ymhen amser fel sy'n briodol.
4. Roedd myfyrwyr wedi llenwi Holiaduron Cloriannu Modiwl (HCM) y tymor hwn. Roedd graddfa'r ymateb lawer yn is nag arfer am fod yr holiaduron yn cael eu gwneud o bell yn hytrach nag wyneb yn wyneb. Yn gyffredinol, roedd 86% o'r rhai a ymatebodd yn fodlon ag ansawdd eu modiwlau eleni, o'i gymharu â 90% yn 2019. Roedd y Weithrediaeth yn edrych ar dueddiadau ac roedd camau gweithredu eisoes yn eu lle i ymdrin â rhai o'r agweddau negyddol a godwyd.
5. Rhwng 29 Hydref a 05 Tachwedd 2020, gwahoddwyd aelodau'r staff i gwblhau ail arolwg barn byr ar-lein. O'i gymharu â'r arolwg blaenorol ym mis Mai, bu cynnydd o 24% yn nifer yr ymatebion. Er gwaethaf rhai canlyniadau calonogol, roedd yr arolwg yn pwysleisio'r heriau gwirioneddol a wynebai cydweithwyr wrth i effaith y pandemig ymestyn am nifer o fisoedd.
6. Roedd rhai aelodau staff academiaidd yn dweud nad oedd modd ymdopi â'u llwyth gwaith. Cafodd yr aelodau eu hatgoffa felly nad oedd y Brifysgol yn disgwyl yr un lefel o gynnyrch ymchwil eleni, ac mai ar ddarparu cymaint o ddysgu wyneb yn wyneb yr oedd y pwyslais - rhywbeth nad oedd rhai sefydliadau eraill yn gallu ei gynnig eleni. Roedd Gweithrediaeth y Brifysgol hefyd yn edrych am dulliau ychwanegol o roi rhagor o gefnogaeth i gydweithwyr - byddai'r oblygiadau o ran adnoddau'n cael eu trafod yn nes ymlaen yng nghyswllt y Diweddariad Cyllid.
7. Dywedodd yr Is-Ganghellor ei bod yn dymuno trefnu dyddiau 'diolch' yn ystod 2020-21 i gydnabod gwaith caled aelodau'r staff dros y misoedd diwethaf yn rhan o ymateb y sefydliad i argyfwng COVID-19. Y farn oedd y byddai rhoi gwyliau blynyddol ychwanegol

i staff ar bedwar diwrnod 'diolch' dynodedig - tri ohonynt cyn y Nadolig 2020, ac un yn syth ar ôl y Pasg 2021 - yn decach na rhoi gwobr ariannol i staff dethol. Byddai'r rhai a oedd yn gorfod gweithio ar y dyddiau 'diolch' yn cael cyfnod *pro rata* cyfatebol wedi'i ychwanegu at eu gwyliau blynyddol am 2021.

8. Dymunai'r Cyngor ddiolch i'r Is-Ganghellor a'r holl staff a myfyrwyr am weithio mor galed ac effeithlon i sicrhau bod y dysgu'n cael ei ddarparu'n ddiogel yn y Brifysgol.

#### **PENDERFYNWYD**

9. Cefnogi cynnig yr Is-Ganghellor i roi pedwar diwrnod 'diolch' ychwanegol i staff yn ystod blwyddyn academaidd 2020-21 (**GWEITHREDU**: Yr Is-Ganghellor).

### **21. DIWEDDARIAD IECHYD A DIOGELWCH**

#### DERBYNIWYD

Adroddiad gan Reolwr Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd (COU2021-040).

#### NODWYD

1. Rhoddai'r adroddiad ddiweddariad cryno ar iechyd a diogelwch, yn seiliedig ar yr adroddiadau perthnasol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio (LI&Ch) ar 12 Tachwedd 2020.
2. Roedd Adroddiad Blynyddol Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd 2019-20 yn cael sylw'n nes ymlaen ar yr agenda a byddai'n cael ei ystyried ar wahân.

### **22. ADRODDIAD GAN UNDEB MYFYRWYR PRIFYSGOL ABERYSTWYTH**

#### DERBYNIWYD

Adroddiad gan Lywydd UMAber (COU2021-041).

#### NODWYD

Rhoddai'r adroddiad fanylion diweddaraf am ddatblygiadau yn UMAber ers cyfarfod diwethaf Cyngor y Brifysgol.

### **23. DIWEDDARIAD CYLLID**

#### DERBYNIWYD

1. Adroddiad gan Ddirprwy Gyfarwyddwr Cyllid, yn ymgorffori'r Cyfrifon Rheoli am Chwarter 1 2020-21 (COU2021-042); a
2. Adroddiad ar amrywiannau allweddol i Gyllideb a Llif Arian 2020-21 gan Ddirprwy Gyfarwyddwr Cyllid (COU2021-043).

#### NODWYD

3. Cyflwynai'r adroddiadau berfformiad ariannol y Brifysgol ar ddiwedd Chwarter 1 2020-21 (30 Hydref 2020). Oherwydd amseriad cyfarfodydd nid oedd adroddiad cyflawn Chwarter 1 yn barod mewn pryd i'w ystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor Adnoddau a

Pherfformiad (A&Ph) ar 12 Tachwedd 2020. Roedd y Cyngor felly'n cael copi cyflawn o'r adroddiad chwarterol, yn hytrach na'r crynodeb arferol.

4. Ar 10 Gorffennaf 2020, cymeradwyodd y Cyngor gyllideb ofalus am 2020-21. Er bod y Brifysgol wedi derbyn mwy o fyfyrwyr na'r rhagolygon yn y gyllideb, byddai costau ychwanegol sylweddol yn codi yn ystod y flwyddyn, yn deillio'n bennaf o argyfwng Covid-19. Dangosai'r adroddiadau bod modd cadw rheolaeth ar y costau ychwanegol hyn yn ystod y flwyddyn ariannol.
5. Yn gyffredinol, roedd yr alldro diweddaraf a ragwelwyd yn well na'r gyllideb y cytunwyd arni am y flwyddyn, a byddai hynny'n rhoi peth gallu i ymdrin â symudiadau anffafriol yn y dyfodol. Roedd yr alldro a ragwelwyd yn golygu hefyd bod y sefydliad yn gallu cynnig rhai adnoddau ychwanegol i leihau'r beichiau ar staff a nodwyd yn yr arolwg barn diweddar. Yn ddiweddar, roedd Penaethiaid Adrannau wedi'u gwahodd i gyflwyno ceisiadau am staff ychwanegol, a byddai oblygiadau'r angen am adnoddau ychwanegol yn cael eu hadrodd yn ystod cylch cyfarfodydd nesaf y pwyllgorau.
6. Gwnaeth y Brifysgol gais i Gronfa Buddsoddi ac Adfer Addysg Uwch CCAUC, a fwriadwyd i gefnogi prifysgolion i gynnal galluoedd hanfodol a chynorthwyo gydag adferiad economaidd yng nghyd-destun Covid-19. Rhoddir gwybod i aelodau am ganlyniad y cais pan fydd y sefydliad yn cael gwybod.

## 24. ADRODDIADAU DIWEDD BLWYDDYN

1. Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (yn cynnwys Adroddiad a Barn Blynyddol yr Archwilwyr Mewnol)

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (AR&S) am 2019-20, yn ymgorffori Adroddiad a Barn Archwiliad Mewnol yr Archwilwyr Mewnol am 2019-20 (COU2021-044).

NODWYD

1. Cyflwynwyd i'r Cyngor adroddiad ar waith y Pwyllgor AR&S am y flwyddyn 2019-20 (hyd at ei gyfarfod diweddaraf) yn unol â *Chod Rheoli Ariannol CCAUC*, a Chod Llywodraethu Addysg Uwch .
  2. Roedd Deloitte, Archwilwyr Mewnol y Brifysgol, hefyd wedi cytuno ar eu Hadroddiad a'u Barn Blynyddol. Byddai hwn yn cael ei gyflwyno i CCAUC yn ystod mis Rhagfyr 2020 ynghyd ag adroddiad y Pwyllgor AR&S ei hun.
  3. Cafodd y ddau adroddiad eu hystyried gan y Pwyllgor AR&S ar 13 Tachwedd 2020. Ers hynny, paratowyd fersiwn ddiwygiedig o adroddiad y Pwyllgor yn rhoi sylw i drafodaethau'r cyfarfod diwethaf, a chafodd ei chymeradwyo gan y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor. Roedd aelodau'r Pwyllgor AR&S wedi gofyn i Deloitte egluro'i adroddiad cyn ei ddsbarthu i'r Cyngor, er mwyn esbonio sut yr oedd cyfraddau sicrwydd yr archwiliadau mewnol yn bwydo i'r casgliad cyffredinol ynglŷn â gallu'r Brifysgol i gyflawni ei hamcanion.
2. Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2019-20

Adroddiad cyfansawdd gan y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid, yn ymgorffori drafft yr Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2020; eglurhad o'r cysoni rhwng y datganiad rheoli a'r datganiad statudol; adroddiad diwedd blwyddyn yr Archwilwyr Allanol am 2019-20; a thestun drafft Llythyr Cynrychiolaeth y Brifysgol at yr Archwilwyr Allanol (COU2021-045).

#### NODWYD

1. Canlyniad ariannol gweithredol y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2020 oedd diffyg o £5.1m, a oedd yn cynnwys darpariaeth o £300k am wyliau blynyddol a gronnwyd. Fodd bynnag, byddai diffyg o £25.8miliwn yn cael ei gofnodi fel cyfanswm incwm cynhwysfawr yn yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol, yn bennaf o ganlyniad i dâl amhariad a symudiadau yng Nghynllun Pensiwn ac Aswiriannol PA (CPAPA). Cafodd y cysoni rhwng yr hyn a nodwyd yn y Cyfrifon a'r canlyniad gweithredol ei nodi yn yr adran Adolygiad Ariannol o'r Cyfrifon.
2. Croesawodd yr aelodau'r dull newydd o baratoi dogfen gyfun i'r Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol, o ran eu cywair a'u diwyg. Roedd yr adran Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus wedi cynorthwyo i gynhyrchu'r adroddiad drafft, a byddent hefyd yn cymryd camau priodol i sicrhau bod negeseuon allweddol yn cael eu cyfathrebu'n effeithiol pan fydd yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Brifysgol.
3. Mae i Adnodd Credyd Cylchdroawl a benthyciad ychwanegol y sefydliad o dan Gynllun Benthyciad Tarfu ar Fusnes Mawr gan Coronafeirws (CLBILS) un cyfamod pendant, sy'n ymwneud ag arian ar gyfer cynnal cyfanswm dyledion. Yn rhan o'r asesiad o statws y Brifysgol fel 'busnes hyfyw', roedd yr archwilwyr allanol wedi gofyn am sicrwydd na fyddai'r sefydliad yn torri'r cyfamod y cytunwyd arno gyda'r benthyciwr, Banc NatWest ccc, yn ystod y cyfnod deuddeg mis o'r adeg y caiff y Datganiadau Ariannol eu cymeradwyo'n ffurfiol.
4. Roedd yr ansicrwydd sylweddol oherwydd sefyllfa COVID-19 yn golygu na allai'r Brifysgol, fel llawer o sefydliadau ledled y Deyrnas Gyfunol, warantu na fyddai'n torri'r cyfamod. Yn wyneb y sefyllfa, roedd NatWest eisoes wedi anfon llythyr maddeuant cyffredinol at bob un o'i fenthycwyr ynglŷn â'r posibilrwydd o dorri cyfamod.  
Ond gan mai dim ond hyd at 31 Mawrth 2021 yr oedd y llythyr hwn yn ymestyn, roedd y Brifysgol yn cynnal trafodaethau ar wahân â'r benthyciwr i gael llythyr penodol o faddeuant a fyddai'n cwmpasu'r cyfnod deuddeg mis y byddai KPMG yn asesu 'busnes hyfyw'.
5. Er y gallai'r Brifysgol gymryd camau gwahanol i roi sicrwydd angenrheidiol i KPMG yng nghyswllt 'busnes hyfyw', daeth y sefydliad a KPMG i'r casgliad mai cael yr hawl priodol i eithrio gan NatWest oedd yr ateb gorau.
6. Roedd prifysgolion eraill yng Nghymru mewn trafodaethau tebyg â'u benthycwyr. Felly, roedd y Cyngor Cyllido wedi dweud wrth sefydliadau bod y dyddiad cau i gyflwyno datganiadau ariannol wedi'u harchwilio yn cael ei estyn, o 30 Tachwedd 2020 i 28 Chwefror 2021.

#### PENDERFYNWYD

7. Cynnull Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor yn ystod mis Ionawr 2021, ar ôl derbyn llythyr maddeuant am y cyfnod cyfan gan NatWest ac ar ôl i KPMG gwblhau'r archwiliad allanol, er mwyn i'r Cyngor roi cymeradwyaeth ffurfiol i'r Adroddiad a chyfrifon Blynyddol am 2019-20 (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

3. Datganiad Blynyddol Cynaliadwyedd

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ddirprwy Gyfarwyddwr Cyllid (COU2021-046).

**PENDERFYNWYD**

Y dylai'r adroddiad hwn hefyd gael ei ystyried yn y Cyfarfod Arbennig i roi cymeradwyaeth ffurfiol i'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon am 2019-20 (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

4. Cynllun Strategol 2018-23 Dangosyddion Perfformiad Allweddol

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Bennaeth Cynllunio (COU2021-047).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno perfformiad y sefydliad ar 31 Gorffennaf 2020 yng nghyswllt y Dangosyddion Perfformiad Allweddol y cytunodd y Cyngor arnynt ar gyfer monitro cynnydd wrth gyflawni Cynllun Strategol y sefydliad.
2. Oherwydd absenoldeb estynedig aelod o staff, seiliwyd y Dangosydd ar gyfer 'Incwm Ymchwil Allanol Blynyddol' ar y data ar ddiwedd Chwarter 3. Ond, barnwyd bod hyn yn dal i roi darlun da o'r flwyddyn.
3. Cydnabu'r aelodau bod y Dangosyddion pan gawsant eu cytuno gan y Cyngor yn y gwanwyn 2018 wedi'u bwriadu i fod yn amcanion i anelu amdanynt, ac i'w cyflawni dros y cyfnod pum mlynedd.
4. Er ei bod yn parhau'n addas ar y cyfan, byddai Gweithrediaeth y Brifysgol yn adolygu'r targedau arfaethedig i sicrhau eu bod yn dal yn berthnasol. Câi'r adolygiad ei gyflawni pan fydd unrhyw adnewyddu ar y strategaeth sefydliadol ar ganol ei dymor wedi ei wneud ar ddechrau 2021 (**GWEITHREDU:** Yr Is-Ganghellor).

5. Datganiadau Sicrwydd Ansawdd

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd Kim Bradick (COU2021-048).

NODWYD

1. Mae'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd i Gymru yn rhoi pwyslais ar swyddogaeth cyrff llywodraethu ar gyfer darparu sicrwydd ynglŷn â materion ansawdd a safonau. Rhaid i gyrff llywodraethu gytuno ar Ddatganiad Blynyddol Sicrwydd Ansawdd a'i gyflwyno i'r Cyngor Cyllido ym mis Rhagfyr 2020.



2. Cynlluniwyd yr adroddiad manwl a baratowyd gan y Gofrestrfa Academaidd i roi'r dystiolaeth briodol i'r Cyngor ar gyfer cadarnhau wrth y Cyngor Cyllido ei fod yn fodlon bod y Brifysgol wedi cyflawni'i rhwymedigaethau yng nghyswllt cyfres o ddatganiadau ynglŷn â sicrwydd ansawdd, a'i bod yn parhau i wneud hynny.
3. Ar gais y Cyngor, cyflwynwyd baneri statws yn adroddiad y llynedd i dynnu sylw at faterion allweddol a lefelau cysylltiedig eu risg. Roedd adroddiad eleni yn rhoi darlun o'r cynnydd a wnaed yn ystod 2019-20, a'r materion allweddol a lefel y risgiau cyfredol.
4. Atodwyd copiâu o'r Siarter Myfyrwyr cyfredol, Datganiad Blynyddol Undeb y Myfyrwyr am 2019-20, a'r Datganiad Canlyniadau Gradd diweddaraf at yr adroddiad er gwybodaeth.
5. Roedd amseriad cyfarfodydd pwyllgorau llywodraethu bob mis Tachwedd yn cael eu pennu oherwydd yr amod i gyflwyno datganiadau ariannol blynyddol wedi'u harchwilio i'r Cyngor Cyllido erbyn 30 Tachwedd. Roedd hyn yn golygu nad oedd digon o amser i gwblhau'r prosesau sicrhau ansawdd academiaidd perthnasol bob hydref er mwyn caniatáu i adroddiad y Gofrestrfa Academaidd gael ei archwilio cyn hynny ar lefel yr is-bwyllgorau.
6. Cafodd yr aelodau eu sicrhau serch hynny bod yr adroddiad wedi ei ystyried a'i gadarnhau gan y Senedd yn ei gyfarfod ar 18 Tachwedd 2020.

#### **PENDERFYNWYD**

7. Cymeradwyo cyflwyno'r Datganiadau Sicrwydd Ansawdd Blynyddol i CCAUC, ar sail yr pob sicrwydd a ddarparwyd yn yr adroddiad (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).
8. Y dylai Cadeirydd y Cyngor drafod â Chadeirydd CCAUC yr achos i fynd yn ôl i'r drefn flaenorol lle'r oedd datganiadau ariannol a archwiliwyd yn cael eu cyflwyno i'r cyngor cyllido erbyn diwedd mis Rhagfyr, a byddai hyn yn ei dro yn rhoi digon o amser i gyrff llywodraethu prifysgolion yng Nghymru gyflawni archwiliad llawnach o'r holl adroddiadau diwedd blwyddyn sydd angen eu cytuno ar yr adeg hon yn y cylch blynyddol (**GWEITHREDU**: Cadeirydd y Cyngor).

#### 6. Adroddiad Blynyddol Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd 2019–20

##### DERBYNIWYD

Adroddiad Blynyddol Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd am 2019–20 (COU2021-049).

##### NODWYD

1. Roedd yr Adroddiad Blynyddol yn crynhoi datblygiadau yn y Brifysgol yng nghyswllt trefniadau iechyd, diogelwch a'r amgylchedd yn ystod blwyddyn academiaidd 2019-20. Yn ôl y disgwyl, roedd effaith a dylanwad argyfwng COVID-19 ar y gweithgareddau hyn yn cael sylw amlwg yn yr adroddiad.
2. Cafodd yr Adroddiad Blynyddol ei ystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio (LI&Ch) ar 12 Tachwedd 2020, a gofynnodd yr aelodau i'r adroddiad gael ei ddiwygio er mwyn cynnwys adran fer ynglŷn ag

unrhyw newidiadau deddfwriaethol yn ystod 2019-20. Diwygiwyd yr Adroddiad Blynyddol yn unol â hynny cyn ei ddsbarthu i aelodau'r Cyngor.

7. Adroddiad Blynyddol Safonau'r Iaith Gymraeg 2019–20

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol; Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg; a Swyddog Datblygu Gwasanaethau'r Gymraeg (COU2021-050).

NODWYD

1. Mae Safonau'r Iaith Gymraeg yn gosod dyletswydd statudol ar y Brifysgol i baratoi a chyhoeddi Adroddiad Blynyddol o fewn chwe mis (30 Ionawr 2021) i ddiwedd y flwyddyn adrodd (1 Awst 2019 - 31 Gorffennaf 2020).
2. Paratowyd drafft yr Adroddiad Blynyddol yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg.
3. Cafodd drafft yr Adroddiad Blynyddol ei ystyried gan aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio ar 12 Tachwedd 2020. Er bod aelodau wedi argymhell y dylai'r Cyngor gymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol, gofynnwyd am fanylion pellach ynglŷn â'r nifer fawr a oedd wedi cymryd y cwrs IOSH 'Gweithio'n Ddiogel' trwy gyfrwng y Gymraeg. Gwelwyd ers hynny mai nifer y myfyrwyr ac nid staff oedd dan sylw, a na ellid felly ei gynnwys yn y data. Diwygiwyd yr Adroddiad Blynyddol yn unol â hynny.

**PENDERFYNWYD**

4. Cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol i'w gyhoeddi ar wefan y Brifysgol (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol).

8. Datganiad Blynyddol ar Berfformiad Rheoli Carbon

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cynghorydd Cynaliadwyedd (COU2021-051).

NODWYD

1. Yn ystod 2019, cytunodd Gweithrediaeth a Chyngor y Brifysgol i addo ceisio bod yn garbon niwtral erbyn 2030. Roedd yr Adroddiad Blynyddol yn crynhoi'r cynnydd a wnaed gan y Brifysgol dros y flwyddyn ddiwethaf tuag at dorri ar allyriadau CO<sub>2</sub>.
2. Cafodd yr Adroddiad Blynyddol ei ystyried a'i gadarnhau gan aelodau'r Pwyllgor A&Ph ar 12 Tachwedd 2020.

**PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwyo cyhoeddi'r Datganiad Blynyddol ar Berfformiad Rheoli Carbon ar we-dudalennau Cynaliadwyedd y Brifysgol (**GWEITHREDU:** Cynghorwr Cynaliadwyedd).

9. Datganiad Caethwasiaeth Modern

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid (COU2021-052).

NODWYD

1. Yn unol â gofynion Deddf Caethwasiaeth Modern (2015), roedd y Brifysgol wedi drafftio Datganiad Caethwasiaeth Modern a Masnachu Pobl am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2020. Roedd y datganiad drafft yn adeiladu ar y fersiwn a gymeradwywyd ac a gyhoeddwyd y flwyddyn flaenorol, a hefyd yn amlinellu'r camau sy'n cael eu cymryd gan y Brifysgol i gydymffurfio â Chod Ymddygiad Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.
2. Cafodd y Datganiad drafft am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2020 ei ystyried a'i gadarnhau gan y Pwyllgor LI&Ch ar 12 Tachwedd 2020.

**PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwyo'r Datganiad Caethwasiaeth Modern a Masnachu Pobl arfaethedig (**GWEITHREDU**: Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid).

10. Adroddiad Blynyddol Dyletswydd 'Prevent'

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Swyddog Parhad Busnes ac Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd (COU2021-053).

NODWYD

1. O dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015, rhaid i Sefydliadau Addysg Uwch roi sylw priodol i'r angen i rwystro pobl rhag cael eu denu gan derfysgaeth. Cyfeirir at hyn fel y Ddyletswydd 'Prevent' neu'r ddyletswydd i rwystro.
2. I gydymffurfio â Fframwaith Monitro'r Cyngor Cyllido, mae'n rhaid i'r Cyngor gyflwyno Datganiad Atebolrwydd Blynyddol i'r Ddyletswydd Prevent wedi'i lofnodi gan Gadeirydd y Cyngor, a Datganiad Blynyddol o Ddata Monitro'r Ddyletswydd Prevent. Amcan yr adroddiad felly oedd rhoi sicrwydd i'r corff llywodraethu, er mwyn gallu cymeradwyo cyflwyno'r datganiadau hyn.
3. Roedd yr adroddiad yn rhoi crynodeb o ddatblygiadau diweddar yn y Brifysgol, a manylion trefniadau presennol yng nghyswllt Dyletswydd Prevent yn ystod blwyddyn academaidd 2019-20, ynghyd â chopïau o fersiynau diweddaraf Asesiad Risg a Chynllun Gweithredu'r Ddyletswydd Prevent.
4. Ystyriwyd drafft yr Adroddiad Blynyddol gan y Pwyllgor LI&Ch ar 12 Tachwedd 2020 lle'r argymhellodd yr aelodau y dylai'r Cyngor ei gymeradwyo.

**PENDERFYNWYD**

5. Cymeradwyo cyflwyno Datganiadau Blynyddol Atebolrwydd a Data Prevent i CCAUC, ar sail yr holl sicrwydd a ddarparwyd yn yr adroddiad (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).

11. Datganiad Sicrwydd Blynyddol

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol, yn ymgorffori drafft y Datganiad Sicrwydd Blynyddol 2019–20 (COU2021-054).

NODWYD

1. Yn rhan o drefniadau adrodd blynyddol, mae'r Cyngor Cyllido'n mynnu bod pob sefydliad Addysg Uwch yng Nghymru yn cyflwyno Datganiad Sicrwydd Blynyddol. Bob mis Tachwedd mae'r Cyngor Cyllido yn darparu'r templed i'w ddefnyddio, a rhaid i'r datganiad gael ei lofnodi gan Gadeirydd y Cyngor a chan yr Is-Ganghellor, sef y Swyddog Atebol.

**PENDERFYNWYD**

2. Cymeradwyo cyflwyno'r Datganiad Blynyddol o Sicrwydd (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

12. Datganiad Blynyddol Cyflogau

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol (COU2021-055).

NODWYD

1. Ers 2017, mae Llywodraeth Cymru wedi disgwyl i brifysgolion gyhoeddi Datganiadau Blynyddol Cyflogau, yn unol ag egwyddorion cyffredin a'r safonau gofynnol a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2015, yng nghyswllt cyrff cyhoeddus datganoledig yng Nghymru.
2. Roedd y Brifysgol felly wedi datblygu Datganiad Blynyddol Cyflogau am 2019-20, i'w gymeradwyo gan y Cyngor ac yna'i gyhoeddi yn adran Gwybodaeth Gorfforaethol gwefan y Brifysgol.
3. Cafodd y Datganiad ei ystyried a'i gadarnhau gan y Pwyllgor LI&Ch ar 12 Tachwedd 2020.

**PENDERFYNWYD**

4. Cymeradwyo'r Datganiad Blynyddol Cyflogau arfaethedig i'w gyhoeddi ar wefan y Brifysgol (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

13. Adroddiad Blynyddol gan y Pwyllgor Taliadau

DERBYNIWYD

Adroddiad y Pwyllgor Taliadau am 2019-20, yn ymgorffori drafft y Datganiad Blynyddol cyhoeddus ar Daliadau Staff Uwch am flwyddyn ariannol 2019-20 (COU2021-056).

NODWYD

1. I gydymffurfio â'r 'Cod Taliadau i Staff Uwch Addysg Uwch', cytunodd y Pwyllgor Taliadau i baratoi adroddiad blynyddol i'r corff llywodraethu yn crynhoi'r penderfyniadau a wnaed gan y Pwyllgor ar ran y Cyngor, ac i roi sicrwydd i'r corff llywodraethu bod y Pwyllgor yn cyflawni ei gyfrifoldebau'n effeithiol. Byddai crynodeb o'r adroddiad hefyd yn cael ei wneud yn gyhoeddus yn rhan o'r Datganiad Blynyddol ar Daliadau Staff Uwch.

#### **PENDERFYNWYD**

2. Cymeradwyo'r Datganiad Blynyddol arfaethedig ar Daliadau Staff Uwch am 2019-20 i'w gyhoeddi ar wefan y Brifysgol (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

### **25. MATERION POLISI**

1. Datganiad a Matrics Archwaeth Risg

#### **DERBYNIWYD**

Adroddiad gan Gyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, a Phennaeth Datblygu Strategol (COU2021-057).

#### **NODWYD**

1. Yn unol â Pholisi'r Brifysgol ar Reoli Risg, gwahoddir y Cyngor i adolygu'r Datganiad a'r Matrics Archwaeth Risg bob blwyddyn.
2. Cafodd y Datganiad a'r Matrics Archwaeth Risg cyfredol ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (AR&S) ar 13 Tachwedd. Er nad oedd Gweithrediaeth y Brifysgol yn cynnig unrhyw ddiwygiadau i'r ddogfen, roedd aelodau'r Pwyllgor AR&S wedi cynnig esboniad ar fater bach.

#### **PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwyo'r Datganiad a'r Matrics Archwaeth Risg gyda'r mân newid a argymhellwyd gan y Pwyllgor AR&S (**GWEITHREDU:** Pennaeth Datblygu Strategol).

2. Polisi Gwrth Lwgrwobrwyo

#### **DERBYNIWYD**

Adroddiad gan Gyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol (COU2021-058).

#### **NODWYD**

1. Adolygwyd y polisi Gwrth Lwgrwobrwyo ddiwethaf ym mis Tachwedd 2018 ac felly roedd yn bryd cynnal ei adolygiad hanner blynyddol. Roedd mân newidiadau'n cael eu cynnig i'r polisi presennol i gynnwys adran ynglŷn â chofnodi datganiadau o ddiddordeb ac i egluro cyfrifoldebau.
2. Cafodd y diwygiadau arfaethedig eu hystyried a'u cadarnhau gan y Pwyllgor LI&Ch ar 12 Tachwedd 2020. Hefyd, gwahoddwyd aelodau'r Pwyllgor AR&S i brofi addasrwydd y darpariaethau arfaethedig yn eu cyfarfod ar 13 Tachwedd.

#### **PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig (**GWEITHREDU**: Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol).

3. Polisi Gwrth Dwyll

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol (COU2021-059).

NODWYD

1. Adolygwyd y polisi Gwrth Dwyll a Chamymarfer ddiwethaf ym mis Tachwedd 2018 ac felly roedd yn bryd cynnal ei adolygiad hanner blyneddol. Roedd mân newidiadau wedi'u gwneud i'r polisi presennol i gynnwys datganiad polisi newydd ac adran ynglŷn â rhoi gwybod i'r Comisiwn Elusennau am ddigwyddiadau, yn ogytal â diweddarau teitlau swyddi yn ôl yr angen.
2. Cafodd y diwygiadau arfaethedig eu hystyried a'u cadarnhau gan y Pwyllgor LI&Ch ar 12 Tachwedd 2020. Hefyd, gwahoddiwyd aelodau'r Pwyllgor AR&S i brofi addasrwydd y darpariaethau arfaethedig yn eu cyfarfod ar 13 Tachwedd.

**PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig (**GWEITHREDU**: Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol).

4.

Polisi a Gweithdrefn Absenoldeb Salwch

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ddirprwy Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Phartner Busnes Adnoddau Liz Merriman, yn ymgorffori drafft dogfen Polisi a Gweithdrefn Absenoldeb Salwch (COU2021-060).

NODWYD

1. Yn y misoedd diwethaf gwnaed adolygiad trylwyr o'r Polisi a'r Weithdrefn Absenoldeb Salwch, mewn ymgynghoriad â Chynrychiolwyr Undebau Llafur. Mae'r Polisi presennol yn ffurfio rhan o Ordinhad 35 (Polisi Rheoli Absenoldeb Salwch). Roedd y polisi a'r gweithdrefnau diwygiedig a gynigir ar hyn o bryd felly angen cymeradwyaeth ffurfiol y Cyngor.
2. Cafodd y polisi diwygiedig ei ystyried gan y Pwyllgor LI&Ch ar 12 Tachwedd 2020 lle'r argymhellodd yr aelodau y dylai'r Cyngor ei gymeradwyo.

**PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwyo'r Polisi a'r Weithdrefn Absenoldeb Salwch newydd, i ddisodli'r Ordinhad 35 cyfredol (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol; a Dirprwy Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol).

**26. MATERION LLYWODRAETHU**

1. Cod Llywodraethu Addysg Uwch Pwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion (CUC)

## DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU2021-061).

## NODWYD

1. Ym mis Medi 2020, cyhoeddwyd Cod Llywodraethu Addysg Uwch newydd gan y CUC. Seiliwyd y Cod ar chwe elfen allweddol sy'n creu fframwaith ar gyfer llywodraethu effeithiol. Roedd copi cyflawn o'r Cod wedi ei roi ar Sharepoint (yn COU2021-079).
2. Roedd yr agwedd seiliedig ar werthoedd a fabwysiadwyd yn y Cod newydd yn ymdebygu i'r gwerthoedd a gynigiwyd yn rhan o Adolygiad Camm ar drefniadau Llywodraethu Addysg Uwch yng Nghymru. Yn hytrach na datblygu Cynllun Gweithredu mewn ymateb i'r Cod newydd, byddai'r Brifysgol yn parhau i weithredu'r camau hynny y cytunwyd arnynt eisoes mewn ymateb i Adolygiad Camm, a thrwy wneud hynny byddai'n sicrhau ei bod yn alinio â'r Cod Llywodraethu newydd.
3. Ond, yn atodiad i'r Cod newydd, roedd y CUC yn cynnig templed diwygiedig i'r Datganiad o Brif Gyfrifoldebau'r corff llywodraethu. Roedd addasiadau'n cael eu cynnig felly i Ordinhad 5 - Y Cyngor: Datganiad o Brif Gyfrifoldebau, i sicrhau bod darpariaethau presennol y Brifysgol yn cyfateb yn well i'r templed newydd.
4. Roedd aelodau'r Pwyllgor LI&Ch wedi ystyried yr adroddiad a chadarnhau'r diwygiadau arfaethedig i Ordinhad 5 yn eu cyfarfod ar 12 Tachwedd 2020. Ond, ers hynny roedd aelod o'r Cyngor nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor LI&Ch wedi amau addasrwydd y diwygiadau a argymhellwyd gan y CUC.
5. Roedd Cod newydd y CUC hefyd yn annog cyrff llywodraethu i ystyried penodi 'Uwch Lywodraethwr Annibynnol'. Roedd y Brifysgol cyn hyn wedi cydnabod Dirprwy Gadeirydd y Cyngor yn 'Uwch Lywodraethwr Annibynnol'. Ond roedd y Cod yn awgrymu'n awr bod swyddogaeth yr 'Uwch Lywodraethwr Annibynnol' yn wahanol i swyddogaeth y Dirprwy Gadeirydd.
6. Cafodd swyddogaeth yr 'Uwch Lywodraethwr Annibynnol' ei hystyried gan y Pwyllgor LI&Ch ar 12 Tachwedd 2020, a daethpwyd i'r casgliad nad oedd yn ymddangos bod fawr o werth i greu swyddogaeth annibynnol o'r fath, ac y byddai'r dyletswyddau'n dal i gael eu cyflawni gan Ddirprwy Gadeirydd y Cyngor.

## PENDERFYNWYD

7. I fabwysiadu'n ffurfiol God Llywodraethu Addysg Uwch diwygiedig y CUC (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).
  8. Y dylai'r Pwyllgor LI&Ch roi ystyriaeth bellach i eiriad y diwygiadau arfaethedig i Ordinhad 5 - Y Cyngor: Datganiad o Brif Gyfrifoldebau (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).
2. Cod Ymarfer Archwilio CUC

## DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU2021-062).

## NODWYD

1. Ym mis Mai 2020, cyhoeddodd y CUC God Ymarfer newydd i Bwyllgorau Archwilio mewn Addysg Uwch. Roedd egwyddorion ac elfennau allweddol y Cod newydd wedi eu nodi yn yr adroddiad, a oedd yn ceisio profi i ba raddau y mae'r Pwyllgor AR&S eisoes yn alinio â'r Cod newydd. Yn y manau priodol, cynigiwyd camau gweithredu i sicrhau alinio pellach.
2. Roedd Prifysgolion yn cael eu hannog i fabwysiadu'r Cod newydd yn ffurfiol, ac i adrodd hyn trwy adroddiad blynyddol y Pwyllgor Archwilio i'r corff llywodraethu, ac yn natganiadau ariannol cyhoeddedig y sefydliad.
3. Yn eu cyfarfod ar 16 Hydref 2020, roedd aelodau'r Pwyllgor AR&S wedi ystyried a chadarnhau Cod Ymarfer newydd CUC i Bwyllgorau Archwilio mewn Addysg Uwch a'r cynllun gweithredu a gynigiwyd gan Ysgrifennydd y Brifysgol (

## PENDERFYNWYD

4. I fabwysiadu'n ffurfiol God Ymarfer newydd CUC i Bwyllgorau Archwilio mewn Addysg Uwch, a chytuno ar y cynllun gweithredu a nodwyd yn adroddiad Ysgrifennydd y Brifysgol (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).
3. Cyfansoddiad UMAber

## DERBYNIWYD

Adroddiad a dderbyniwyd gan Ysgrifennydd y Brifysgol; a Phrif Weithredwr UMAber (COU2021-063).

## NODWYD

1. Cafodd Cyfansoddiad Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth (UMAber) ei adolygu ddiwethaf yn yr hydref 2015, a chytunodd Cyngor y Brifysgol ar y diwygiadau ar 02 Rhagfyr 2015. Roedd natur y diwygiadau y cytunwyd arnynt yn 2015 yn golygu na fu angen cynnig diwygiadau pellach sylweddol yn y cyfnod ers hynny.
2. I gydymffurfio â Deddf Addysg 1994, roedd yn rhaid i'r Brifysgol yn awr adolygu cyfansoddiad UMAber yn ffurfiol erbyn 02 Rhagfyr 2020. Roedd Ysgrifennydd y Brifysgol felly wedi cyflawni'r adolygiad hwn mewn ymgynghoriad â Phrif Weithredwr UMAber.
3. Casgliad yr arolwg oedd mai dim ond mân ddiwygiadau oedd eu hangen i gyfansoddiad UMAber i adlewyrchu'r ffaith bod 'Cyngor yr Undeb' bellach yn cael ei alw'n 'Senedd'.
4. Cafodd y diwygiadau arfaethedig eu hystyried a'u cadarnhau gan aelodau'r Pwyllgor LI&Ch yn eu cyfarfod ar 12 Tachwedd 2020.

## PENDERFYNWYD

5. Cymeradwyo'r mân newidiadau i Gyfansoddiad UMAber (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).



4. Grŵp Trosolwg Llywodraethu TRAC

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU2021-064).

NODWYD

1. Y dull a ddatblygwyd gyda'r sector addysg uwch i'w cynorthwyo i gostio eu gweithgareddau yw TRAC (Transparent Approach to Costing). Yn ôl y canllawiau diweddaraf a roddwyd i sefydliadau ynglŷn â pharatoi a chyflwyno eu datganiadau TRAC blynyddol, dylai'r datganiadau gael eu cymeradwyo gan bwyllgor o'r corff llywodraethu.
2. Nid oedd y dyddiadau cau cyflwyno ar gyfer TRAC a TRAC(T) ar ddechrau 2021 yn cyd-daro â dyddiadau cyfarfodydd y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad (A&Ph) - sef is-bwyllgor y Cyngor sydd yn flaenorol wedi ystyried y datganiadau hyn cyn eu cyflwyno. Roedd adroddiad Ysgrifennydd y Brifysgol felly'n cynnig sefydlu Grŵp Trosolwg Llywodraethu TRAC er mwyn ystyried a chymeradwyo datganiadau'r Brifysgol yn y dyfodol.
3. O gofio'r ymdrechion a wnaed ers rhai blynyddoedd i resymoli is-bwyllgorau'r Cyngor, gofynnodd yr aelodau ai sefydlu is-grŵp newydd i gymeradwyo datganiadau TRAC oedd yr ateb mwyaf addas - yn enwedig o ystyried natur weithrediadol iawn y broses TRAC.

**PENDERFYNWYD**

4. Y dylai'r Pwyllgor A&Ph barhau i gymeradwyo datganiadau'r sefydliad i TRAC a TRAC(T) ar ran y Cyngor, ac y byddai aelodau'r Pwyllgor yn ystyried datganiadau drafft TRAC trwy ohebiaeth os nad yw dyddiadau cyfarfodydd yn cyd-daro â dyddiadau cau cyflwyno i TRAC (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).
  5. Y dylai Cadeirydd y Cyngor drafod â Chadeirydd CCAUC y nifer cynyddol o faterion gweithrediadol yr oedd angen i'r corff llywodraethu eu cymeradwyo'n ffurfiol erbyn hyn i'w cyflwyno i'r cyngor cyllido (**GWEITHREDU:** Cadeirydd y Cyngor).
5. Dyrchafiadau Academaidd - Diwygiadau i Ordinhad

DERBYNIWYD

Adroddiad a dderbyniwyd gan Ysgrifennydd y Brifysgol; a Dirprwy Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol (COU2021-065).

NODWYD

1. Cafodd Ordinhad 23 ("Penodi a Dyrchafu i Gadeiriau, Ddarllenyddiaethau ac Uwch Ddarlithyddiaethau") ei adolygu ddiwethaf ar 29 Mehefin 2016. Ers yr oedi i drefn Dyrchafiadau Academaidd y Brifysgol wrth i'r Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd gael ei weithredu, oedwyd cynigion i ddiwygio Ordinhad 23 yn yr un modd wrth aros i'r cynllun Dyrchafiadau Academaidd diwygiedig gael ei gytuno.

2. Gan fod y cynllun Dyrchafiadau Academaidd newydd bellach wedi'i gytuno, roedd diwygiadau'n cael eu cynnig i Ordinhad 23. Cafodd y diwygiadau hyn eu hystyried a'u cadarnhau gan aelodau'r Pwyllgor Ll&Ch yn eu cyfarfod ar 12 Tachwedd 2020.

#### **PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig i Ordinhad 23 (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

### **27. CYNLLUN PENSIWN AC ASWIRIANT PRIFYSGOL ABERYSTWYTH**

#### 1. Cyfamod Cyflogwr Cynllun Pensiwn ac Aswariant PA (CPAPA-AUPAS)

##### DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ddirprwy Gyfarwyddwr Cyllid (COU2021-066).

##### NODWYD

1. O dan Ddeddf Pensiynau 2004, rhaid i Ymddiriedolwyr CPAPA adrodd i'r Rheolydd Pensiynau ynglŷn â chadernid y cyfamod cyflogwyr yn dilyn pob gwerthusiad tair blynedd, ac yn amlach na hynny os yw amgylchiadau'n mynnu. Gwnaed yr adolygiad diwethaf o'r cyfamod cyflogwr ym mis Hydref 2019.
2. Ar gais Cadeirydd Ymddiriedolwyr CPAPA, roedd y Brifysgol yn dymuno rhoi sicrwydd i Ymddiriedolwyr CPAPA fod y sefydliad yn dal i fod mewn sefyllfa i danysgrifennu'r cynllun. Roedd yr adroddiad yn nodi'r ystyriaethau allweddol o safbwynt y Brifysgol, ac yn cadarnhau bod swyddogaeth y sefydliad yn dal i fod yn un sy'n cefnogi Ymddiriedolwyr CPAPA, a thanysgrifennu unrhyw ddiffyg yn y cynllun.
3. Ystyriwyd yr adroddiad gan y Pwyllgor A&Ph ar 12 Tachwedd 2020, lle'r argymhellodd yr aelodau y dylai'r Cyngor gymeradwyo'r camau arfaethedig.

#### **PENDERFYNWYD**

4. Bod y Brifysgol, fel cyflogwr, yn cytuno'n ffurfiol i barhau i danysgrifennu unrhyw ddiffyg yng nghynllun pensiynau CPAPA i gefnogi'r asesiad o gadernid y cyfamod cyflogwyr (**GWEITHREDU:** Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid).
5. I gefnogi adolygiad annibynnol o gadernid y cyfamod cyflogwyr, pe dymunai Ymddiriedolwyr y Cynllun gomisiynu adolygiad annibynnol (**GWEITHREDU:** Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid).

#### 2. Strategaeth Buddsoddi CPAPA

##### DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ddirprwy Gyfarwyddwr Cyllid (COU2021-067).

##### NODWYD

1. Er mwyn lleihau anwadalwch y symudiadau ym mhortffolio buddsoddiadau Cynllun Pensiwn ac Aswariant Prifysgol Aberystwyth i ddiogelu'r Brifysgol, roedd

ymddiriedolwyr y cynllun yn cynnig newid i'w Strategaeth Buddsoddi. Yn ôl y gyfraith rhaid i newid o'r fath gael ei gymeradwyo gan y Brifysgol fel cyflogwr.

2. Roedd y diwygiadau arfaethedig i'r Strategaeth Buddsoddi wedi eu nodi yn yr adroddiad, ac wedi'u hystyried a'u cadarnhau gan aelodau'r Pwyllgor A&Ph yn eu cyfarfod ar 12 Tachwedd 2020.

#### **PENDERFYNWYD**

3. Rhoi cymeradwyaeth ffurfiol i'r newidiadau i Strategaeth Buddsoddiadau CPAPA ar ran y Brifysgol fel cyflogwr (**GWEITHREDU**: Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid).

### **28. AIL-DDYNODI CRONFEYDD GWADDOL**

#### **DERBYNIWYD**

Adroddiad gan Gyfarwyddwr Cynorthwyol Cyllid (COU2021-068).

#### **NODWYD**

1. Dros y misoedd diwethaf, bu'r Brifysgol yn archwilio a rhesymoli'r cronfeydd gwaddol er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu bwriad a dymuniadau'r rhoddwyr, a bod unrhyw gyfyngiadau wedi eu nodi a'u dogfennu'n llawn.
2. O blith Cronfeydd Grŵp 2 a gynhwyswyd yn yr adolygiad hwn (sef y cronfeydd heb wybodaeth ddigonol, ac y gofynnwyd am farn gyfreithiol yn eu cylch) dim ond Ystâd Gogerddan oedd yn dal heb gael sylw. Ar 31 Gorffennaf 2020, cyfanswm gwerth Ystâd Gogerddan oedd £8.4m
3. Casgliad y cyngor cyfreithiol a gafwyd oedd y gallai'r Brifysgol waredu'r cwbl neu ran o dir Gogerddan a brynwyd ym 1950, a'r gronfa gysylltiedig. Roedd hyn yn golygu y gallai Cyngor y Brifysgol ail-ddynodi Ystâd Gogerddan yn arian 'rhydd', i'w ddefnyddio'n unol ag amcanion elusennol y Brifysgol.
4. Ystyriwyd a chadarnhawyd yr ail-ddynodi arfaethedig o Ystâd Gogerddan gan aelodau'r Pwyllgor A&Ph ar 12 Tachwedd 2020.

#### **PENDERFYNWYD**

5. Cymeradwyo ail-ddynodi Ystâd Gogerddan yn arian 'rhydd', i'w ddefnyddio'n unol â Pholisi'r Brifysgol ar ddefnyddio Gwaddoliadau a Ail-ddynodwyd (**GWEITHREDU**: Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyllid).

### **29. EITEMAU ER GWYBODAETH**

#### **DERBYNIWYD**

Derbyniodd aelodau adroddiadau ar y canlynol er gwybodaeth:

1. Adroddiadau blynyddol is-bwyllgorau i'r Cyngor (COU2021-069);
2. Covid-19: Cofnod penderfyniadau (COU2021-070);
3. Perfformiad Cronfeydd Gwaddol a Chronfeydd Buddsoddi eraill y Brifysgol (COU2021-071);

4. Crynodeb o'r Gofrestr Risg Corfforaethol (COU2021-072);
5. Dogfennau wedi'u selio â'r Sêl Gyffredin (COU2021-073) a;
6. Crynodeb o'r cwynion a dderbyniwyd yn gysylltiedig â'r Gymraeg (COU2021-074).

NODWYD

7. Cynnwys yr adroddiadau a gyflwynwyd er gwybodaeth.

### **30. ADRODDIADAU O IS-BWYLLGORAU**

DERBYNIWYD

Adroddiad cyfansawdd yn cynnwys y canlynol (COU2021-075):

1. Y Senedd (20 Medi 2020);
2. Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (16 Hydref, a 13 Tachwedd 2020);
3. Pwyllgor Enwebiadau (22 Hydref, a 17 Tachwedd 2020);
4. Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio (12 Tachwedd 2020); a
5. Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad (12 Tachwedd 2020).

NODWYD

6. Yr adroddiadau a ddaeth o'r is-bwyllgorau.

### **31. UNRHYW FATER ARALL, AROLWG O'R CYFARFOD, A BUSNES YN Y DYFODOL**

#### **1. Cyfarfod Arbennig**

1. Byddai Ysgrifennydd y Brifysgol yn ysgrifennu at aelodau'n fuan i gadarnhau dyddiad Cyfarfod Arbennig y Cyngor ym mis Ionawr 2021, er mwyn ystyried a chymeradwyo'r Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol am 2019-20, a'r Datganiad Cynaliadwyedd Blynyddol, ASSUR (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).
2. Byddai'r Is-Ganghellor hefyd yn rhoi diweddariad llafar byr i aelodau yn y Cyfarfod Arbennig ynglŷn â threfniadau ar ddechrau'r ail semester (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).